Dyddiad: 25/11/2020

Annwyl Riant neu Ofalwr,

Ynghylch: Gwybodaeth am achos a gadarnhawyd o'r coronafeirws ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Mae gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru wedi cael gwybod am achos a gadarnhawyd o COVID-19 (y Coronafeirws) **ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe**.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe yn parhau ar agor. Mae'n gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau priodol ar waith i ddiogelu myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu am y sefyllfa bresennol a rhoi cyngor ar sut y gallwch gefnogi eich plentyn.

Nodwyd holl gysylltiadau agos yr achos ac maent wedi cael cyngor priodol i hunan ynysu (pob disgybl ym mlwyddyn 7 a disgyblion sy'n teithio ar fws 639 yn ddyddiol). Ar wahan i unigolion sydd wedi eu hadnabod yn barod gan y tim profi, olrhain a diogelu, **ni nodwyd bod unrhyw ddisgybl ym mlynyddoedd 8-13eg sydd ddim yn teithio ar fws y 639 yn gysylltiad agos ac felly nid oes angen iddynt hunan ynysu na chael prawf COVID-19.**

Bydd y disgyblion **o flwyddyn 11 ac unigolion o'r 6ed sydd yn hunan ynysu ar hyn o bryd yn parhau i wneud hyd at ddiwedd y cyfnod a nodwyd ar eu llythyron penodol hwy.**

Gall ddisgyblion sydd yn deilwng i gludiant ysgol barhau i deithio ar eu bws ysgol arferol. Gallant barhau i fynychu **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** yn ôl yr arfer. Yn yr un modd, **bydd disgyblion blwyddyn 11 a'r 6ed Dosbarth yn gallu dychwelyd ar ddiwedd eu cyfnod hunan ynysu penodol hwy.**

Fodd bynnag, dim ond rhag ofn, cadwch lygad am unrhyw rai o symptomau COVID-19:

- Peswch newydd neu gyson
- Tymheredd uchel
- Colli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw rai o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

- Trefnwch brawf iddo drwy ffonio 01639 862757 neu 119 neu drwy fynd i'r porth ar-lein: https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test
- Rhowch wybod i **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** ei fod yn teimlo'n anhwylus gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn hunanynysu am 10 diwrnod o'r diwrnod y dechreuodd ei symptomau
- Dylai pawb arall sydd ar yr aelwyd ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y datblygodd eich plentyn symptomau
- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu; os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fydd eich plentyn yn cael canlyniadau ei brawf

Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae pethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- golchi eich dwylo â dŵr a sebon yn aml, am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi eich dwylo cyn gynted ag y byddwch gartref
- gorchuddio eich ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi yn y bin ar unwaith ar ôl eu defnyddio a golchi eich dwylo wedyn

Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunanynysu ar gael yma
https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth
Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu ar gael yma
https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws
I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-eraill-rhag-y-coronafeirws
Gall gwiriwr symptomau ar-lein COVID-19 ddweud wrthych a oes angen help meddygol arnoch a'ch cynghori ynghylch beth i'w wneud https://llyw.cymru/oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wales School of Rugby
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales